

Datganiad o Fwriad Patholeg

2019

Mae'r *Datganiad o Fwriad* hwn yn mynd i'r afael â'r heriau cyfredol sy'n wynebu'r gwasanaethau Patholeg yng Nghymru. Mae'n nodi wyth maes blaenoriaeth lle mae dulliau strategol newydd yn ofynnol i hwyluso'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau Patholeg o safon uchel sy'n effeithiol ac yn wydn. Mae cydnabod bod gwasanaethau diagnostig effeithiol yn hanfodol er mwyn atal a rheoli clefydau yn greiddiol i'n huchelgais. Gall gwelliannau yn y gwasanaethau diagnostig helpu i drawsnewid llwybrau cleifion a phrofiadau cleifion, ac arwain at well canlyniadau i gleifion a gwell buddiannau ar gyfer y GIG yng Nghymru, a chefnogi datblygiad economaidd. Bydd y datganiad yn helpu i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a nodir yn Symud Cymru Ymlaen: Iach ac Egniol.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn, byddwn yn ystyried cyfluniad modelau gwasanaeth ar gyfer Patholeg yn y dyfodol, gan gynnwys lle y caiff y rhain eu darparu, y modd y cânt eu staffio a'u cyrchu, sut y caiff technolegau newydd eu mabwysiadu a'u lledaenu, datblygu'r gweithlu, gwybodeg, cymorth gwybodaeth, yn ogystal â harneisio'r cyfleoedd sy'n deillio o ymchwil ac arloesedd. At hynny, mae'r Datganiad yn amlygu pwysigrwydd cynllun strategol a gydgyssylltir yn genedlaethol ar gyfer gwasanaethau Patholeg yng Nghymru, sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gynaliadwy, a chyflenwi gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwerth.

Ystyr Patholeg yw astudiaeth o glefydau. Mae'n pontio gwyddoniaeth a meddygaeth ac yn sail i bob agwedd ar ofal cleifion, o brofion diagnostig a chyngor ar driniaethau, i'r defnydd o dechnolegau blaengar ac atal clefydau. Mae Patholegwyr a Gwyddonwyr Gofal Iechyd yn gweithio gydag amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn lleoliadau gwahanol er mwyn rhoi diagnosis o salwch, ei atal a'i drin.

Mae Patholeg yn rhan o 70% o bob diagnosis a roddir yn y GIG. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r rôl y mae Patholeg yn ei chwarae wrth sgrinio a monitro mewn perthynas â chyflyrau cronig. Mae Patholeg yn sail i'r holl wasanaethau clinigol, ac mae 95% o lwybrau clinigol yn dibynnu ar gleifion yn cael mynediad at wasanaethau Patholeg effeithlon, amserol a chosteffeithiol o fewn gofal eilaidd.

Mae Patholeg yn cynnwys nifer o arbenigeddau, er enghraifft: Gwyddorau Gwaed, Trallwys Gwaed, Patholeg Gellog, Genomeg (gan gynnwys genomeg ddynol a genomeg pathogenau)

<https://gov.wales/topics/health/publications/health/strategies/genomics>, Microbioleg a Phrofion Pwynt Gofal. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr gan fod Patholeg yn cynnwys portffolio eang o broffesiynau a gwasanaethau; fodd bynnag, bwriedir i'r datganiad hwn gynnwys holl feysydd disgyblaethau patholeg GIG Cymru.

Mae Patholeg yn elfen allweddol o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd darbodus i boblogaeth Cymru, ac yn alluogydd ar gyfer cynlluniau darparu iechyd eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys canser a strôc. Mae'r gwasanaethau presennol o dan bwysau cynyddol, gyda modelau clinigol newidiol yn symud y cydbwysedd gofal. Mae hyn wedi arwain at dwf enfawr yn y galw o ganlyniad i lwybrau clinigol mwy effeithiol, nifer cynyddol o bobl hŷn â chyflyrau iechyd cronig, nifer cynyddol o achosion o ganser, gwell technoleg, technegau newydd a phwysau ar y gweithlu.

At hynny, mae meysydd Genomeg, Patholeg Foleciwlaidd a Phrofion Pwynt Gofal yn esblygu'n gyflym wrth iddynt gael eu llywio gan gostau is, cysylltedd cynyddol ac arloesedd technolegol.

Mae hyn yn symud meddygaeth i ffwrdd oddi wrth leihadaeth ac yn nes at feddygaeth bersonol. Mae technolegau o'r fath yn hwyluso diagnosisu mwy manwl gywir a thriniaethau targededig, fel y gall cleifion gael eu trin mewn ffordd fwy unigol. Mae datblygiadau mewn Profion Pwynt Gofal hefyd yn cynnig manteision canlyniadau 'lleol i gleifion', sydd â'r potensial i wella penderfyniadau a wneir ar sail asesiadau a thystiolaeth ar gyfer rheoli cleifion.

Gall diagnosis lleol i gleifion gynorthwyo i reoli cyflyrau sy'n bygwth bywyd, er enghraifft sepsis a rheoli haint, yn ogystal â galluogi cleifion i hunanfonitro eu cyflyrau cronig heb orfod ymweld â lleoliadau gofal iechyd.

Mae "*Iechyd a Gofal Gwybodus – Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru*" (Llywodraeth Cymru 2015) yn cydnabod bod yn rhaid i'r broses o wella mynediad at wybodaeth a chyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gofal gyda technolegau digidol fod wrth wraidd cynlluniau ein gwasanaethau a'n gweledigaeth ar gyfer gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werth. Mae Patholeg yng Nghymru yn datblygu'r defnydd o dechnoleg ddigidol, oherwydd cydnabyddir y gallai buddion cyffredinol y dull hwn gynnwys: gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, diogelwch cleifion, cyfathrebu, cyfraddau cyfeiliornadau, costau, y defnydd o ddata, ynghyd â deallusrwydd artifffisial. Mae heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu systemau rheoli gwybodaeth labordai wedi oedi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau Patholeg ledled Cymru. Mae systemau gwybodeg a gwybodaeth ddigidol o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn i GIG Cymru ddarparu gwasanaethau Patholeg effeithiol, effeithlon a chynaliadwy sy'n arwain y byd.

Mae'n bwysig bod gwasanaethau Patholeg yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i wella'r gwasanaethau. Mae hyn yn debygol o olygu y bydd angen datblygu a mabwysiadu protocolau profi safonol, meincnodi a newid ymddygiad.

Mae'r gymuned Batholeg yng Nghymru yn parhau i ymateb i'r galw am ofal iechyd trwy newid arferion gwaith, defnyddio technoleg yn o ffordd orau posibl, ac "ychwanegu gwerth" trwy brosiectau cynllunio gwasanaethau. At hynny, mae amrywiaeth ledled Cymru wedi gostwng o ganlyniad i ddull "ei wneud unwaith a'i rannu", ac mae'r gwasanaeth Patholeg wedi cysylltu canlyniadau diagnostig â chanlyniadau cleifion.

Mae'r gwasanaethau Patholeg o dan bwysau cynyddol gyda thwf enfawr yn y galw am brofion gwyddor gwaed yn cynyddu tua 5% y flwyddyn, ac mae cymhlethdod Patholeg Gelllog wedi cynyddu'n ddramatig.

Mae moderneiddio'r gweithlu Patholeg wedi bod yn anodd o ganlyniad i broblemau recriwtio a chadw ac argaeledd adnoddau. Mae nifer o arbenigeddau patholeg yn wynebu prinder yng Nghymru, a hynny yn y proffesiynau meddygol a gwyddonol, fel ei gilydd. Mae rhai Byrddau Iechyd Prifysgolion (BIPau) yng Nghymru yn wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio Gwyddonwyr Biofeddygol, ac mae angen ymdrin â'r newid cenedlaethol hwn mewn modd cyson, gyda'r BIPau yn cydweithio i ddatrys problemau. Mae'r data diweddaraf o Adroddiad ar Histopatholeg Gweithlu Cyngor Rhanbarthol Cymru y Coleg Brenhinol Patholeg yn amlygu'r ffaith bod 26% o swyddi Meddygon Ymgynghorol yn wag.

Er 2008, mae'r gymuned Batholeg wedi ailgynllunio'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu cyrchu, eu rheoli a'u darparu. Lle bo hynny'n bosibl, cyflwynwyd awtomatiaeth,

sefydlwyd contractau gwasanaethau a reolir, ac ailgynlluniwyd y gwasanaethau. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yna gyfleoedd mawr ar gael o hyd i drawsnewid y modelau gwasanaeth ym maes Patholeg ar draws ffiniau traddodiadol a sefydliadol, er mwyn hyrwyddo gwasanaethau costeffeithiol, cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac mae creu rhwydwaith patholeg cenedlaethol yn rhan annatod o'r ymagwedd system gyfan hon.

Blaenoriaethau Allweddol

1. Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r cyhoedd yn greiddiol i ofal iechyd yng Nghymru, a dylent fod wrth wraidd y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth Patholeg. Bydd hwyluso'r gwaith o gynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn modd ystyrlon yn galluogi'r cyhoedd, y cleifion a'r gweithwyr proffesiynol i gydweithio yn bartneriaid cyfartal i gydgyhyrchu gwasanaethau Patholeg ar gyfer Cymru. Bydd cydgyhyrchu yn hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar werth ac sy'n canolbwyntio ar gael y canlyniadau sy'n bwysig i boblogaeth Cymru, yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar y broses o ddarparu'r gwasanaeth.

Hwylusir y gwaith o gynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn modd gweithredol trwy roi mynediad i aelodau o'r cyhoedd at y cymorth sy'n ofynnol i'w galluogi i gymryd rhan.

CAMAU GWEITHREDU

- **GIG Cymru i barhau i ddatblygu ffyrdd o annog y cyhoedd i ymgysylltu a chyfranogi yn y gwaith o gydgyhyrchu gwasanaethau Patholeg.**
- **GIG Cymru i gefnogi a hwyluso'r gwaith o hyrwyddo a lledaenu enghreifftiau o arfer da, ynghyd â rôl a swyddogaeth hanfodol Patholeg o ran gofal cleifion.**

2. Datblygu'r Gweithlu

Mae Patholeg yn hanfodol i sicrhau gwell diagnosis o glefydau a thriniaethau priodol, yn ogystal â gwella iechyd y cyhoedd trwy atal a rheoli haint. Mae Patholegwyr a Gwyddonwyr Gofal Iechyd yn rhan annatod o dimau clinigol ledled pob maes gofal meddygol a llawfeddygol cyffredinol ac arbenigol. Mae gwasanaethau saith niwrnod, poblogaeth sy'n heneiddio a meddygaeth bersonol yn golygu y bydd y galw ar wasanaethau Patholeg yn parhau i gynyddu.

Mae hyfforddi gweithwyr proffesiynol meddygol a gwyddonol ym maes Patholeg yn cymryd rhwng tair a deng mlynedd. Mae'n bwysig bod y buddsoddiad mewn hyfforddiant ac addysg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddeion newydd, ôl-gymhwyster, cofrestru, a datblygiad proffesiynol parhaus. Er mwyn datblygu cwrpas arfer gwyddonwyr gofal iechyd ledled pob arbenigedd ym maes Patholeg, rhaid manteisio ar y cyfle i arloesi, gwerthuso rolau, sgiliau a chyfrifoldebau, a dysgu o enghreifftiau cyfredol.

Cydnabyddir yn gynyddol fod dulliau darbodus, trawsddisgyblaethol, sy'n cynnwys cymysgedd hyblyg o sgiliau yn ofynnol er mwyn i fodelau gweithlu yn y dyfodol fodloni'r bylchau mewn sgiliau ac arbenigedd, a hwyluso'r broses o gadw/datblygu mewn gwyddor gofal iechyd.

Mae hefyd yn hanfodol bod Cymru yn buddsoddi mewn seilwaith patholeg er mwyn datblygu rhagor ar wasanaethau o ansawdd uchel sy'n denu ac yn cadw gweithwyr

proffesiynol o'r safon orau ym maes meddygaeth a gwyddoniaeth. Bydd y gwaith o ddatblygu'r gweithlu yn gofyn am gymorth GIG Cymru (trwy AaGIC) a phartneriaid academaidd i ddarparu addysg a chysiau hyfforddi o ansawdd uchel. Dylai'r hyfforddiant gael ei gydgyhyrchu gyda'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y cynnwys, a'r gofynion o ran y modelau cyflwyno addysg, cydymffurfiaeth, safonau proffesiynol ac achredu, yn cael eu bodloni. Trwy wneud hyn, sicrheir bod aelodau newydd yn y gweithlu yn diwallu anghenion gwasanaeth Patholeg o ansawdd uchel.

Mae angen gwybodaeth fwy cadarn am y gweithlu cenedlaethol er mwyn helpu i fodelu anghenion y gwasanaethau Patholeg yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae angen dulliau cenedlaethol o ymdrin â swydd-ddisgrifiadau, cynlluniau ac arfer uwch er mwyn cynyddu mynediad a symudedd o fewn proffesiynau.

CAMAU GWEITHREDU

- **Bydd GIG Cymru yn cefnogi'r broses o fabwysiadu ymagwedd ddarbodus, drawsddisgyblaethol, sy'n cynnwys cymysgedd hyblyg o sgiliau, at fodolau gweithlu yn y dyfodol, gan orchfygu ffiniau proffesiynol ac arbenigol trwy gryfhau sgiliau ac arbenigedd, a chynyddu nifer y proffesiynau sy'n cael eu denu at faes Patholeg a'u cadw ynddo.**
- **Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau targededig, ar y cyd â'r fframwaith *Gwyddor Gofal Iechyd – Edrych tuag at y Dyfodol*, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu gweithlu modern ar gyfer y Gwasanaethau Patholeg yng Nghymru.**
- **Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a GIG Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth er mwyn darparu eglurder ynghylch y gwasanaethau a'r gweithlu, a hynny er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o gynllunio a dadansoddi gweithlu cadarn ar gyfer y dyfodol, ac amlinellu cynlluniau i adeiladu ac atgyfnerthu'r sail glinigol yng Ngwasanaethau Patholeg GIG Cymru.**

3. Cyfarpar ac Ystadau

Mae cyfarpar patholeg dibynadwy, diogel a modern yn angenrheidiol ar gyfer gwasanaeth Patholeg effeithiol a chynaliadwy. Er mwyn cynllunio, nodi a mynd i'r afael ag anghenion y GIG o ran cyfarpar patholeg, byddwn yn defnyddio dull gweithredu cenedlaethol, cydgysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys nodi, asesu, blaenoriaethu a mabwysiadu technolegau newydd.

O ran cynllunio, byddwn yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac anghenion y boblogaeth. Byddwn yn cyflunio cyfarpar patholeg yn y modd gorau posibl ar gyfer Cymru gyfan. Bydd hyn yn gofyn am ddull cydweithredol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol o ran cynllunio capasiti a galw, a sicrhau adnoddau.

Bydd dull "seiliedig ar werth" o gaffael ym maes Patholeg, sy'n cael ei lywio gan ganlyniadau yn ogystal â chostau, yn cael ei fabwysiadu ledled GIG Cymru, a bydd cyfleoedd i wella'r trefniadau presennol o ran Contractau a Reolir gan y Gwasanaeth Patholeg yn cael eu hystyried.

CAMAU GWEITHREDU

- **Bydd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn cydweithio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a blaenoriaethu rhaglen fuddsoddi gynaliadwy ar gyfer Patholeg.**
- **Bydd GIG Cymru yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu dull cydgysylltiedig o nodi, gwerthuso, blaenoriaethu a mabwysiadu technolegau Patholeg newydd ledled GIG Cymru.**
- **Bydd GIG Cymru yn sicrhau bod defnydd rhanbarthol, ystyriaethau o ran y gweithlu, ac ystadau yn ganolog i benderfyniadau ynghylch caffael cyfarpar.**
- **Bydd dull "seiliedig ar werth" o gaffael ym maes Patholeg yn cael ei fabwysiadu ledled GIG Cymru, a bydd cyfleoedd i wella'r trefniadau presennol o ran Contractau a Reolir gan y Gwasanaeth Patholeg yn cael eu hystyried.**

4. Ansawdd a diogelwch

Bydd ffocws cryf ar wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau Patholeg yn ganolog i'r gwaith o ddarparu a datblygu system gofal ac iechyd yn y dyfodol, sydd bob amser yn dysgu. Bydd diogelwch y staff a'r cleifion yn cael ei flaenoriaethu trwy leihau risgiau a digwyddiadau, a gwneir hynny trwy ddefnyddio gweithdrefnau priodol a'r technolegau diweddaraf (e.e. awtomatiaeth, roboteg), ac ymgymryd â gwaith monitro, ymchwilio, archwilio a dysgu ar y cyd. Bydd systemau llywodraethu clinigol cadarn, ynghyd â chydymffurfiaeth â safonau a gofynion ansawdd clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn sicrhau bod adroddiadau manwl gywir, dibynadwy, clinigol briodol ac amserol yn hanfodol ar gyfer gwasanaeth Patholeg diogel ac effeithiol.

Ar hyn o bryd, mae Grŵp Ansawdd Patholeg a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol Cymru Gyfan yn cefnogi cymuned batholeg GIG Cymru i gyflawni ei chyfrifoldebau trwy ddatblygu agweddau cyson at gydymffurfiaeth reoleiddiol; cefnogi a rhannu arfer gorau ymhlith arweinwyr Patholeg o ran ansawdd ac iechyd a diogelwch; a gweithio'n gydweithredol ledled GIG Cymru er mwyn cyflawni prosiectau a darnau o waith penodol.

Yn y dyfodol, byddwn yn ceisio adeiladu ar y seiliau a'r mecanweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau ansawdd a diogelwch yn y gwasanaethau Patholeg, a hynny trwy gyflwyno System Ansawdd Cenedlaethol Reoledig ar gyfer GIG Cymru a fydd yn sicrhau bod y gwasanaethau yn addas ar gyfer y dyfodol.

Bydd system rheoli ansawdd mentrau yn cael ei datblygu a'i chynnal ar lefel genedlaethol i weithio tuag at safoni arfer, a hynny er mwyn hyrwyddo argaeledd gwybodaeth a chefnogi'r "diwylliant dysgu" sefydledig yn y gymuned batholeg mewn modd gweithredol.

CAMAU GWEITHREDU

Bydd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn cefnogi'r broses o gyflwyno Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol Rheoledig er mwyn sicrhau'r canlynol:

- **Gwasanaeth Patholeg cwbl achrededig ar gyfer GIG Cymru, gyda'r gofynion o ran ansawdd a rheoleiddio yn cael eu bodloni.**

- Y bydd diogelwch cleifion a'r gwaith o ddarparu canlyniadau amserol, cywir ac addysgiadol sy'n lleihau'r risg o niwed ac sy'n cyfrannu at ofal uniongyrchol i gleifion, yn parhau'n flaenoriaeth.
- Bod GIG Cymru yn mabwysiadu arferion a dulliau gweithredu safonol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Bod tystiolaeth yn cael ei chyflwyno am amrywiad direswm, ac y gweithredir ar y dystiolaeth honno.
- Bod dulliau o roi adborth am wasanaethau (gwasanaethau cleifion a gwasanaethau ar gyfer atgyfeirwyr) yn cael eu datblygu ymhellach.
- Bod niferoedd y cyfeiliornadau, achosion o golli sbesimenau, a digwyddiadau a swm y gwastraff yn cael eu cadw mor isel â phosibl.
- Y bydd GIG Cymru yn datblygu system rheoli ansawdd rwydweithiol, a gynhelir ar lefel genedlaethol, er mwyn gweithio tuag at safoni arfer.

5. Gwasanaethau

Mae tueddiadau a thechnolegau newydd yn darparu cyfleoedd cyffrous i'r gymuned Batholeg aiffeddwl am ddulliau o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.

Bydd angen i strategaethau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol gael eu datblygu ar sail dull "system gyfan". Bydd mapio llwybrau clinigol i grwpiau o glefydau yn galluogi GIG Cymru i gydnabod cyfraniad y gymuned Batholeg i'r gwaith o reoli cleifion mewn modd effeithiol. Dylid cydnabod bod Patholeg yn cynyddu gwerth y system iechyd, ac na ddylid ei hystyried ar sail costau yn unig.

Mae yna alw cynyddol am wasanaethau iechyd, a phrinder adnoddau i gefnogi hyn. Mae pobl yn byw'n hirach, ac yn aml yn byw â chydafiacheddau lluosog wrth iddynt heneiddio. Bydd y weledigaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau Patholeg ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i sicrhau ymagwedd sy'n seiliedig ar gleifion, ac yn manteisio ar fuddion meddygaeth ragfynegol ac ataliol a phrosesau monitro iechyd personol.

Mae yna gryn bosibiliadau i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n bodoli, ac mae Coleg Brenhinol y Patholegwyr wedi hyrwyddo'r ymgyrch "Dewis yn Ddoeth", a gynlluniwyd i sicrhau mai dim ond yr ymchwiliadau mwyaf priodol ac effeithiol a ddefnyddir.

Wrth ystyried cynllun gwasanaethau, dylem fod yn "cynllunio ar gyfer y galw", gan ddadansoddi lefelau'r angen clinigol ac angen y cleifion, a llunio gwasanaeth ymatebol ar gyfer y system. Ym mhrosesau cynllunio presennol GIG Cymru, mae angen cydnabod yn ffurfiol fod gwasanaethau Patholeg yn rhan annatod o ofal cleifion, a'u bod yn "ychwanegu gwerth" trwy ddarparu cymorth neu drwy lywio newidiadau yn uniongyrchol. Bydd cynnwys ac ymgysylltu â chyd-weithwyr ym maes Patholeg ar ddechrau'r broses gynllunio yn galluogi i effaith llwybrau clinigol newydd ar y gwasanaethau Patholeg gael ei nodi, ac yn galluogi iddynt gyfrannu'n ffurfiol i'r gwaith o ddatblygu llwybrau clinigol.

Bydd manyleb gwasanaeth yn cael ei llunio i gefnogi gweithio'n rhanbarthol, a hynny'n seiliedig ar anghenion y cleifion a phenderfyniadau ar sail tystiolaeth. Bydd y fanyleb yn cydnabod rhwystrau daearyddol, yn ogystal â thechnolegau a gwasanaethau newydd (h.y. rhannu delweddau digidol cydraniad uchel yn gyflym, Profion Pwynt Gofal). Bydd

y fanyleb hon hefyd yn cynnwys hyfforddiant, ymchwil ac arloesedd, ac ansawdd a diogelwch yn ofynion creiddiol. At hynny, bydd y fanyleb yn cynnwys manyleb gweithlu integredig, yn seiliedig ar dasgau, cymhwysedd (egwyddorion darbodus) ac anghenion y gwasanaeth, yn hytrach na ffiniau proffesiynol a daearyddol hanesyddol.

CAMAU GWEITHREDU

- **Er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth, bydd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn nodi cyfleoedd i ailstrwythuro modelau gwasanaeth ar gyfer Patholeg, gan ddarparu llinell amser ar gyfer cyflawni hyn, ac yn datblygu mecanweithiau cynllunio patholeg rhanbarthol.**
- **Bydd GIG Cymru yn sefydlu trefniant strwythuredig ffurfiol i ddarparu gwasanaethau Profion Pwynt Gofal yn GIG Cymru.**
- **Bydd GIG Cymru yn gwella effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n bodoli trwy fabwysiadu'r ymgyrch "Dewis yn Ddoeth".**
- **Bydd GIG Cymru yn sicrhau bod y gwasanaethau Patholeg wedi'u "cynllunio ar gyfer y galw", gan ddadansoddi lefelau'r angen clinigol ac angen y cleifion, a llunio gwasanaeth ymatebol.**
- **Bydd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn sicrhau bod y prosesau cynllunio yn cydnabod yn ffurfiol fod Patholeg yn rhan annatod o ofal cleifion, ac yn hwyluso'r broses o gynnwys ac ymgysylltu â chyd-weithwyr ym maes Patholeg ar ddechrau prosesau cynllunio yn y dyfodol.**

6. Gwybodeg a Gwybodaeth

Mae cydgysylltedd a dibynadwyedd TG yn heriau hollbwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae systemau gwybodeg sydd o ansawdd uchel o'r dechrau i'r diwedd, ac sy'n cynnwys cyfleusterau electronig i wneud ceisiadau am brofion ac i dderbyn cleifion, yn hanfodol i ddatblygu gwasanaeth Patholeg effeithiol, effeithlon a chynaliadwy, sy'n arwain y byd.

Mae'r gwasanaethau Patholeg yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau mewn perthynas â rheoli gwybodaeth labordai, gan gynnwys dulliau safoni, gwybodaeth reoli ac argaeledd staff TGCh i gefnogi'r gwaith o gynnal profion ad hoc a chyffredinol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddarparu datrysiad cadarn ar gyfer llywodraethu a rheoli'r system gwybodaeth labordai newydd.

Mae system gwybodaeth reoli newydd yn ofyniad hanfodol i alluogi'r gwaith o gyflunio gwasanaethau ar lefel leol, genedlaethol a rhanbarthol yn y dyfodol.

Mae cyfleoedd yn bodoli i ehangu hygyrchedd y llwyfannau gwybodeg a'r modd yr ydym yn defnyddio'r data sydd yn y system i gefnogi symudiad tuag at weithio symudol, gofal lleol i gleifion a deallusrwydd artiffisial.

At hynny, mae'r cyfoeth o wybodaeth sydd gan y gwasanaeth Patholeg yn darparu cyfle unigryw o ran defnyddio data i gefnogi ymchwil ac arloesedd, ac mae'r angen i archwilio'r defnydd o systemau gwybodaeth i gefnogi ymchwil o ansawdd uchel, yn ogystal â chanolbwyntio ar ddefnyddio'r wybodaeth sydd eisoes ar gael, yn hanfodol. Mae'n angenrheidiol cydweithredu â phartneriaid academaidd a diwydiannol er mwyn datblygu ymchwil strwythuredig a chyfleoedd i arloesi, a manteisio ar adnoddau TG er

mwyn rhyddhau staff i ganolbwyntio mwy ar ddeongliadau, canllawiau a chanlyniadau clinigol.

Er mwyn cefnogi arfer clinigol ac adolygiad gan gymheiriaid, byddwn yn ailedrych ar y trefniadau presennol ar gyfer rheoli gwybodeg Patholeg yng Nghymru, ynghyd â'r protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth, ac yn datblygu cyfluniad newydd a fydd yn diwallu anghenion y gwasanaethau Patholeg ar gyfer Cymru orau.

Datblygir set newydd o ddangosyddion perfformiad i gefnogi gwybodaeth fusnes ac ansawdd clinigol, er mwyn ehangu ystod yr wybodaeth berfformio a goladir, ac fe'i defnyddir i ddarparu a gwella ansawdd a chysondeb y gwasanaethau Patholeg. Bydd hyn yn cynnwys gwaith rheolaidd i fesur a monitro'r galw ar y gwasanaethau Patholeg, gallu'r gwasanaethau i ymateb i bwysau, a lleihau risgiau ac amrywiad amhriodol. Cytunir ar ddulliau mesur safonol i'w mabwysiadu ledled Cymru, a gosodir targedau clir i GIG Cymru eu cyflawni.

CAMAU GWEITHREDU

- **Bydd GIG Cymru yn ailedrych ar drefniadau Gwybodeg Patholeg presennol yng Nghymru ac yn datblygu cyfluniad newydd, gan ddatblygu rhagor ar y cyfleusterau electronig ar gyfer gwneud ceisiadau a derbyn adroddiadau sy'n diwallu anghenion y gwasanaethau clinigol yng Nghymru orau, a'u roi ar waith.**
- **Bydd GIG Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu set newydd o ddangosyddion perfformiad a fydd yn cael ei defnyddio i gyflawni'r gwasanaethau Patholeg a gwella eu hansawdd a'u cysondeb.**
- **Bydd y Rhwydwaith Patholeg Cenedlaethol yn gyfrifol am fonitro perfformiad mewn perthynas â'r dangosyddion cytunedig, ac adrodd am gynnydd, yn unol â hynny, i Brif Weithredwyr Cymru Gyfan a Llywodraeth Cymru.**
- **Bydd GIG Cymru yn ystyried y trefniadau cyfredol ar gyfer rheoli gwybodeg Patholeg, ynghyd â'r protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth, er mwyn sicrhau bod y rhain yn diwallu anghenion y gwasanaethau Patholeg ar gyfer Cymru.**

7. Ymchwil ac Arloesi

Mae datblygiadau arloesol a thechnolegol yn cynnig y cyfle i ailfeddwl am y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i gleifion, a sicrhau bod gwasanaethau Patholeg GIG Cymru "o'r radd flaenaf". Mae angen i ni groesawu'r cyfleoedd sy'n bodoli a defnyddio sgiliau ac arbenigedd y gweithlu patholeg yn llawn.

Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn System Batholeg Ddigidol ar gyfer Cymru Gyfan yn llywio cydweithredu ac effeithlonrwydd. Fodd bynnag, nid yw potensial ymchwil ac arloesedd Patholeg wedi'i wireddu'n llawn yng Nghymru eto.

Cydnabyddir bod cyfleoedd yn bodoli i Batholeg ddatblygu rhagor ar ei pherthynas gydweithredol â'r byd academaidd a diwydiant ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, wrth fynd ar drywydd arloesedd a gwell canlyniadau ar gyfer poblogaeth Cymru. Mae sgiliau gwyddonol yn y gwasanaethau Patholeg yn ased sylweddol i'r sector Gwyddorau Bywyd yng Nghymru, a bydd gweithio mewn partneriaeth â'r byd

academaidd a diwydiant yn helpu i fodloni nodau Llywodraeth Cymru o ran gwella iechyd, ffyniant a llesiant poblogaeth Cymru, a chefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru: *Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, a hynny trwy ddatblygu syniadau arloesol, cydweithio, eiddo deallusol, a chreu cyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu a chyflogaeth fedrus arall ar gyfer poblogaeth Cymru.

Bydd angen cryfhau'r mecanweithiau ar gyfer hwyluso partneriaethau strategol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn bodoli i fanteisio ar arloesedd a thechnoleg, a bydd fframwaith yn ofynnol sy'n nodi'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i gydweithio. At hynny, datblygir cynllun strategol er mwyn sicrhau y manteisir ar gyfleoedd ymchwil ac arloesedd, gan ofalu bod Cymru yn gwneud y gorau o fuddion technoleg ac arloesedd i fynd ar drywydd y Nod Pedwarplyg a darparu gofal mwy effeithiol ac effeithlon.

CAMAU GWEITHREDU

- **Bydd GIG Cymru yn datblygu rhagor ar y berthynas gydweithredol â'r byd academaidd a diwydiant ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, a hynny wrth fynd ar drywydd canlyniadau arloesol a gwell canlyniadau ar gyfer cleifion a phoblogaeth Cymru. Bydd cyfleoedd ymchwil strwythuredig, ynghyd â'r defnydd o adnoddau TG i ryddhau staff i ganolbwyntio ar ddeongliadau, canllawiau a chanlyniadau mwy clinigol, hefyd yn cael eu harchwilio.**
- **Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanweithiau i hwyluso partneriaethau strategol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn bodoli i fanteisio ar arloesedd a thechnoleg, a bydd yn datblygu fframwaith sy'n nodi'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i gydweithio.**
- **Bydd GIG Cymru yn datblygu Cynllun Strategol i sicrhau y manteisir ar gyfleoedd ymchwil ac arloesedd i wella iechyd, ffyniant, llesiant a ffyniant ar gyfer poblogaeth Cymru.**

8. Gweithio'n Genedlaethol ac yn Rhanbarthol

Sefydli'r *Rhwydwaith Patholeg Cenedlaethol*, a fydd yn atebol i Brif Weithredwyr GIG Cymru, er mwyn cydgysylltu'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaeth Patholeg ar gyfer Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Bydd hwn yn cynnwys: darparu hyfforddiant ac addysg o ansawdd uchel ar gyfer y gweithlu patholeg; arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Achredu Gwasanaethau Patholeg cynaliadwy; eirioli dros wasanaeth a gydgysylltir yn genedlaethol ac a ddarperir yn lleol; datblygu canllawiau arfer gorau er mwyn lleihau amrywiad, a gwella canlyniadau a phrofiadau'r cleifion; cydgysylltu ymchwil, datblygiad ac arloesedd ym maes Patholeg; cefnogi'r gwaith o safoni gwasanaethau Patholeg, gan gynnwys Meincnodi gan y GIG.

Bydd y rhwydwaith yn gwneud argymhellion o ran y cyfeiriad strategol, ac yn hyrwyddo cysondeb o ran darparu gwasanaethau Patholeg Cymru Gyfan er mwyn cyflawni'r Nod Pedwarplyg ar gyfer pawb. Bydd yn darparu cyngor i Brif Weithredwyr Cymru Gyfan a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn patholeg a'r defnydd effeithiol o adnoddau. Bydd yn cyflawni'r amcanion hyn trwy fwrdd prosiect strategol, grwpiau gorchwyl a gorffen a grwpiau cynghori arbenigol, a fydd yn cynrychioli pob prif ddisgyblaeth Patholeg, TGCh a rheolwyr cyffredinol y gwasanaethau labordai. Bydd y Cyd-bwyllgorau Rhanbarthol yn cefnogi Byrddau

Iechyd i gydweithredu mewn modd mwy effeithiol o ran ailgynllunio a newid gwasanaethau, gyda thri phatrwm rhanbarthol yn cwmpasu Gogledd, De-orllewin a De-ddwyrain Cymru.

Bydd cadeiryddion gweithgorau'r Rhwydwaith Patholeg Cenedlaethol yn darparu rhaglenni gwaith blynyddol ar gyfer Patholeg, a fydd yn bwydo i mewn i'r broses IMTP a hefyd yn cefnogi'r agenda ar gyfer gofal iechyd darbodus. Bydd Is-bwyllgor y Gwasanaethau Labordai a Grwpiau Cynghori Gwasanaethau Arbenigol perthnasol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyhoeddi canllawiau arfer gorau i leihau amrywiad, llywio'r gwaith o safoni, a gwella profiad a chanlyniadau cleifion; bydd hefyd yn craffu ar y gorwel ac yn cefnogi ymchwil ac arloesedd. Bydd y Rhwydwaith Patholeg Cenedlaethol ac Is-bwyllgor y Gwasanaethau Labordai, fel ei gilydd, yn canolbwyntio ar welliant parhaus.

Er mwyn llywio datblygiad strategol y gwasanaethau Patholeg ledled GIG Cymru a hyrwyddo'r cyfleodd sy'n deillio o ddatblygu Un System Ddi-dor ar gyfer Cymru, bydd angen sefydlu Rhwydwaith Patholeg Cymru Gyfan i gynghori ac arwain y gwaith o ddatblygu gwasanaeth cynaliadwy a gydgysylltir yn genedlaethol ac a ddarperir ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, fel y bo'n briodol. Yn cefnogi'r rhwydwaith fydd Grŵp Cydweithredol GIG Cymru, a fydd yn disodli'r Bwrdd y Rhaglen Batholeg Genedlaethol a'r Grŵp Cydweithredol Patholeg Cenedlaethol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er mwyn bod yn gyfrwng effeithiol ar gyfer newid, bydd angen i Brif Weithredwyr Cymru Gyfan ddarparu awdurdod dirprwyedig i'r rhwydwaith, a hynny o fewn paramedrau a ddiffinnir yn glir, a bydd angen sefydlu trefniadau clir o ran llywodraethu ac atebolrwydd.

CAMAU GWEITHREDU

- **Sefydlir Rhwydwaith Patholeg Cenedlaethol, a fydd yn atebol i Brif Weithredwyr GIG Cymru, er mwyn cydgysylltu'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaeth Patholeg ar gyfer Llywodraeth Cymru a GIG Cymru.**
- **Bydd manyleb gwasanaeth yn cael ei llunio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau Patholeg ledled GIG Cymru, a bydd yn seiliedig ar safonau sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.**
- **Bydd Is-bwyllgor Gwasanaethau Labordy a Grwpiau Cynghori Sefydlog Arbenigol perthnasol yn cefnogi'r agenda i wella'r gwasanaeth Patholeg.**

Y Camau Nesaf

Sefydlir Rhwydwaith Patholeg Cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Patholeg Cenedlaethol. Bydd y Rhwydwaith Patholeg Cenedlaethol yn cael ei gadeirio gan Len Richards, y Prif Weithredwr arweiniol ar gyfer Patholeg, GIG Cymru, a'i gydgadeirio gan Dr Rob Orford, Prif Gynghorwr Gwyddonol (Iechyd), Llywodraeth Cymru. Bydd y Rhwydwaith yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill er mwyn datblygu'r cynllun ac adrodd yn ôl i'r Gweinidogion yn ystod 2019.